



# Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) Adroddiad Safle Chwarterol ar gyfer Trawsfynydd

Adroddiad am y cyfnod 1 Ebrill – 30 Mehefin 2016

## Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddiol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau yn chwarterol i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (<http://www.onr.org.uk/lrc/>).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sy'n dymuno holi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

## TABL CYNNWYS

1	INSPECTIONS .....	3
2	ROUTINE MATTERS .....	3
3	NON-ROUTINE MATTERS .....	3
4	REGULATORY ACTIVITY .....	4
5	NEWS FROM ONR .....	4
6	CONTACTS .....	5

## 1 AROLYGIADAU

### 1.1 Dyddiadau arolygiadau

Fe gyflawnodd arolygydd safle'r ONR arolygiadau ar y dyddiad canlynol yn ystod y chwarter:

27, 28, 29 a 30 Mehefin

Cynhaliodd Arolygwr Arweinyddiaeth dros Reolaeth a Diogelwch yr ONR arolwg ar 4 Mai 2016.

## 2 MATERION ARFEROL

### 2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- Deddf Ynni 2013;
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle yng nghyswllt digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r ddadl ddiogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Nod arolygiadau yw ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn y cyfnod hwn, cwmpasodd arolygiadau rheolaidd ar y safle/orsaf y canlynol:

- addasiadau i beiriannau, offer a dadleuon diogelwch;
- digwyddiadau ar y safle;
- newidiadau trefniadol.

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, lle yr ystyriwyd bod gwelliannau yn angenrheidiol, gwnaeth y trwyddedai ymroddiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoleiddiol ffurfiol i sicrhau y gweithredir camau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

## 3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Y materion a digwyddiadau o bwys arbennig yn ystod y cyfnod oedd:

- Wrth wneud gwaith oedd wedi ei gynllunio, canfu'r gweithwyr bod cynnydd yn y cyfraddau ymbelydredd yn yr ardal waith. Ni ddioddefodd y gweithwyr ddos ac mae'r ONR wedi codi'r mater i Magnox Ltd roi copi o Ymchwiliad Achos Creiddiol wedi ei gwblhau o ystyried y gallai dorri Rheoliadau Ymbelydriad Ïoneiddio 1999.

- Rhoddodd Magnox Ltd adroddiad bod offer symudol wedi ei ddifrodi. Datgelodd ymchwiliad dilynol nad oedd addasiad i offer yn dilyn y trefniadau a wnaed i gydymffurfio ag Amod Trwydded Safle 22. Roedd gwaith dilynol cychwynnol gan yr ONR wedi codi cwestiynau ychwanegol am y dogfennau i gofnodi addasiadau eraill i offer yn ymwneud â'r offer yma. Mae'r ONR wedi codi'r mater i Magnox Ltd roi rhagor o fanylion.
- Adroddodd Magnox Ltd, wrth wneud gwaith cynnal a chadw ar offer symudol, bod botwm atal mewn argyfwng ar banel y gweithredwr yn ddiffygiol a'u bod wedi canfod ffordd i'w osgoi. Mae'r ONR wedi codi'r mater gyda Magnox Ltd i sicrhau bod yr holl ymchwiliadau a gweithgareddau sy'n deillio o'r digwyddiad hwn yn cael eu disgrifio i Arolygydd Safle'r ONR.

#### 4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoleiddiol. O dan amodau trwyddedu safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoleiddiol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd; gelwir y rhain gyda'i gilydd yn 'Offerynnau Trwydded' (LIs), ond gallant fod ar ffurf arall. Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Cyhoeddwyd yr LIs a Hysbysiadau Gorfodi canlynol yn ystod y cyfnod:

**Tabl 1**  
**Offerynnau Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ystod y cyfnod hwn**

Dyddiad	Math	Cyf	Disgrifiad
8 Ebrill 2016	Cymeradwyaeth	Offeryn Trwydded 530	Cymeradwyaeth i gylch gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Diogelwch Niwclear (NSC)
8 Ebrill 2016	Cymeradwyaeth	Offeryn Trwydded 531	Cymeradwyaeth i gynigion diogelwch brys

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoleiddio uchod ar wefan yr ONR yn <http://www.onr.org.uk/pars/>.

#### 5 NEWYDDION GAN YR ONR

##### Materion Rheoleiddio'r ONR

Gellir cael cipolwg ar waith yr ONR fel rheoleiddiwr annibynnol i'r diwydiant niwclear yn Regulation Matters yr ONR. Mae'r cyhoeddiad ar-lein (<http://www.onr.org.uk/regulation-matters.htm>) yn adrodd ar themâu a datblygiadau allweddol ym mhob un o raglenni rheoleiddio'r ONR ac yn darparu diweddariad ynglŷn â'r newidiadau i ddod yn yr ONR. I gael y newyddion a diweddariadau diweddaraf gan ONR, ewch i'r wefan a chofrestrwch ar gyfer ein e-fwletin (<http://www.onr.org.uk/ebulletin/index.htm>).

##### Datganiad blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear

Cyhoeddodd yr ONR ei Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol 2015/16 ar 7 Gorffennaf. Yn ogystal â rhoi adroddiad am berfformiad yr ONR, mae'r adroddiad yn cynnwys datganiad blynyddol y Prif Arolygydd Niwclear, sy'n rhoi barn ar y sylw rheoleiddiol sy'n angenrheidiol ar gyfer pob safle trwyddedig, gan ddiybnu ar lefel y perygl a'r risg y mae'r cyfleuster yn ei greu. Gellir gweld yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar wefan yr ONR.

### Strwythur rheoleiddiol newydd

Yn ddiweddar mae'r ONR wedi adolygu ei drefniadau sefydliadol i sicrhau bod ein strwythur rheoleiddiol yn canolbwyntio yn addas i ddarparu rheoleiddio rheng flaen dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn cynnal rheoleiddio effeithiol a chymesur, ac i ymdrin ag anghyfartaledd posibl a gwirioneddol yn llwyth gwaith y rhaglenni, rydym wedi creu tair rhaglen diogelwch niwclear, pob un dan arweiniad Dirprwy Brif Arolygydd. Y rhaglenni hyn yw:

- Rhaglen adweithyddion newydd yn ymdrin ag asesu dyluniad, trwyddedu ac adeiladu adweithyddion sifil.
- Rhaglen safleoedd gweithredol sy'n ymdrin ag adweithyddion gweithredol, safleoedd amddiffyn a safleoedd gweithredol eraill.
- Rhaglen Sellafield, datgomisiynu, tanwydd a gwastraff yn ymdrin yn bennaf â datgomisiynu a gwastraff.

Gallwch weld [strwythur trefniadol](#) yr ONR a'r [strwythur rheoleiddiol](#) llawn ar ein gwefan.

### Cynllun Cryno'r Prif Arolygydd Niwclear am 2016/17

Mae Cynllun Cryno'r Prif Arolygydd yn nodi cerrig milltir rheoleiddiol ar lefel uchel i gyflawni Cynllun Strategol yr ONR hyd 2020 a dull yr ONR o gyflawni rheoleiddio diogelwch ar draws adweithyddion a safleoedd niwclear y Deyrnas Unedig. Cyhoeddwyd y cynllun ar 11 Gorffennaf ar wefan yr ONR.

## 6 CYSYLLTIADAU

Office for Nuclear Regulation  
Redgrave Court  
Merton Road  
Bootle  
Merseyside  
L20 7HS  
gwefan: [www.onr.org.uk](http://www.onr.org.uk)  
e-bost: [ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk](mailto:ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk)

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i <http://www.onr.org.uk/feedback.htm>.

© Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, 2016

Os ydych yn dymuno ailddedfnyddio'r wybodaeth hon, ewch i [www.onr.org.uk/copyright.htm](http://www.onr.org.uk/copyright.htm) am fanylion. Cyhoedd 07/16

*Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.*